| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Medi 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Rhys Thomas / Nigel Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ann Lloyd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nigel Jones / Leila Cravetto |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ann Lloyd |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Bwriad yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gynnydd a pherfformiad Un Lllwybr Mynediad at Dai (SARTH) a'r gwasanaeth brysbennu digartrefedd hyd yma

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor craffu cymunedau a chyfle i'r aelodau archwilio effeithlonrwydd y gofrestr SARTH yn dilyn ail-ddylunio darpariaeth y gwasanaeth yn 2023.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Y gall Craffu fod yn dawel eu meddwl bod SARTH yn perfformio'n dda ar ôl ail-ddylunio'r ddarpariaeth a'i fod yn bodloni'r disgwyliadau a amlinellwyd ar adeg y penderfyniad i gymryd y gwasanaeth yn ôl gan y cyn-ddarparwr a gomisiynwyd, Cyngor Sir y Fflint (CSFf).

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Tachwedd 2022 cymeradwywyd achos busnes i roi'r gorau i gomisiynu'r gwasanaeth gan CSFf ac i ddod â'r ddarpariaeth yn ôl i Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o'i wasanaethau digartrefedd.

4.2. Yr anfanteision a ddynodwyd gyda CSFf oedd profiad cwsmeriaid gwael, anawsterau o ran gallu pob partner i gael mynediad at, ac i weld yr holl ddata, yr amser rhwng y cyswllt cyntaf drwodd i'r asesiad, a'r dyblygu o ran rhyngweithiad cwsmeriaid ar y pwynt brysbennu (brysbennu SARTH yn CSFf, brysbennu digartrefedd yn CSDd). Yn ogystal roedd diffyg tystiolaeth o ddata adolygu o safon.

4.3. Yn ychwanegol at (4.2) roedd CSFf wedi dweud y byddai cost darparu'r gwasanaeth yn codi o 1 Ebrill 2023 i o leiaf ddwywaith y trefniant presennol ac y byddai'n debygol o godi eto wrth i gostau mwy manwl gywir ar gyfer y ddarpariaeth gael eu sefydlu.

4.4. Prif amcanion y prosiect oedd sicrhau bod systemau TGCh yn cael eu datblygu i alluogi trosglwyddiad di-dor o CSFf i CSDd ac y byddai'r ffocws ar 'siwrnai well a symlach i'r cwsmer' drwy wneud hyn yn fwy effeithiol a chadarn.

4.5. Nid oedd newid y gwasanaeth yn hawdd i'w gynllunio oherwydd cymhlethdodau a diffyg cydweithrediad gwasanaethau ymgynghori ar feddalwedd, fodd bynnag cyflawnwyd y trosglwyddiad yn wythnos gyntaf mis Ebrill er bod llawer o oedi wedi arafu'r broses.

4.6. Fe wnaeth y newidiadau cychwynnol mewn systemau TGCh oedi mynediad at ddata am gyfnod sylweddol. Roedd hyn allan o'n rheolaeth ni gan ein bod yn dibynnu ar yr ymgynghorwyr meddalwedd (Open Housing - Capita), i ganiatau ryngweithiad y porth gyda systemau CSDd. Maer mynediad drwy'r porth i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) partner yn awr yn llwyr weithredol a gellir gweld data byw perthnasol ar y pwynt cyswllt cyntaf. Byddai'r fath fynediad wedi bod yn gyfyngedig cyn hyn ac mae'r newidiadau mewn mynediad at ddata yn rhoi hyder y gall partneriaid gynnig llety i gwsmeriaid mewn modd amserol yn seiliedig ar eu hanghenion a'u safle o fewn eu bandio blaenoriaeth.

4.7. Pryder mawr gyda'r ddarpariaeth flaenorol oedd safon annerbyniol y broses adolygu. Mae pryderon yn dilyn gweithrediad mis Ebrill wedi cadarnhau hyn - ymarfer papur bach heb ddim cyswllt â chwsmeriaid oedd yr unig adolygiad a gynhaliwyd. Ers i SARTH fynd ar waith gyda CSDd mae'r ymdriniaeth o ran adolygu achosion yn cynnwys siarad gyda'r Cwsmer er mwyn deall eu hanghenion cyfredol yn llawn, ac i weld os ydynt o fewn y bandio blaenoriaeth cywir, neu weithiau i weld os ydynt yn dal yn gymwys i fod ar y gofrestr. Drwy SARTH a gwasanaeth brysbennu digartrefedd cwbl integredig, caiff pob adolygiad ei drin fel achos brysbennu newydd gan sicrhau y caiff y sgwrs ei chofnodi a'i fod yn fwy na dim ond ymarfer ' tic yn y blwch'.

4.8. Nid yw cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth bellach yn wynebu'r rhwystredigaeth o frysbennu dyblyg fel y profwyd yn flaenorol (Digartrefedd a SARTH). Er enghraifft, bydd pawb sy'n cyflwyno eu hunain fel bod yn ddigartref yn cael eu brysbennu drwy SARTH fel proses gyfochrog. I ddechrau bydd gan ymgeiswyr SARTH angen unigol am y gofrestr tai, fodd bynnag, oherwydd y broses brysbennu integredig, yn aml iawn daw anghenion eraill i'r amlwg a byddant yn cael eu cyfeirio fel sy'n briodol at wasanaethau eraill. Gwelir yn rheolaidd hefyd yn ystod brysbennu SARTH bod gan y cwsmer anawsterau digartrefedd cudd posibl.

4.9. Fel y dangoswyd uchod, mae gwelliannau gweithredol mawr wedi digwydd yn unol â'r weledigaeth strategol i adfywio gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer drwy 'wella a symleiddio siwrnai'r cwsmer'. Ar ôl y cyswllt cyntaf caiff asesiadau rŵan eu cwblhau o fewn yr amserlen ragnodedig o 28 diwrnod, sydd eto'n brawf o'r siwrnai well i gwsmeriaid. Roedd y gwasanaeth blaenorol a ddarparwyd yn gallu cymryd rhwng 3-4 mis neu fwy.

4.10. Mae'r gwasanaeth cofrestr tai yn naturiol yn derbyn mwy na'i siâr o ymholiadau gan Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad ac Aelodau'r Cyngor. Pan ddaeth y gwasanaeth yn ôl dan ofal y Cyngor, roedd y rhan fwyaf o ymholiadau'n cynnwys beirniadaeth a chwynion am wasanaeth gwael a diffyg cyswllt gyda chwsmeriaid. Mae ymholiadau i'r gwasanaeth yn dal yn digwydd yn rheolaidd ond mae'r cyd-destun wedi newid i ymholiadau cyffredinol gan gwsmeriaid am flaenoriaethau bandio a dogfennaeth cymorth bandio wedi mynd ar goll, yn hytrach na chwynion am y gwasanaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

1. Mae'r gwasanaeth newydd yn eistedd o fewn y gwasanaeth digartrefedd ac yn integreiddio â, ac yn cydweddu â meysydd digartrefedd eraill megis y weledigaeth strategol, darpariaeth y Grant Cymorth Tai, a'r gwasanaeth atal mewnol ac yn y gwasanaethau a gomisiynir . Tra bo'r gwasanaeth digartrefedd yn bennaf yn cyfrannu at "Sir Ddinbych â thai o safon sy'n diwallu anghenion pobl", mae hefyd yn cyfrannu ar draws bob maes o'r cynllun corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Caiff cost y gwasanaeth ei ariannu'n bennaf drwy'r Grant Cymorth Tai a chyfraniadau gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol yn Sir Ddinbych. Cytunwyd ar y cyfraniadau i'r gwasanaeth ar y cam prosiect ac maent yn cynnwys: RSL a Thai Cymunedol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), yn cyfrannu swm cyfwerth â'u darpariaeth gwasanaeth (yn gyffredinol yn seiliedig ar y portffolio stoc tai fesul ardal awdurdod). Caiff y brif elfen ei hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai.

6.2. Mae'r gwasanaeth wedi darparu buddion gweddilliol cadarnhaol ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau'r cyngor yn cynnwys digartrefedd a thai. Ers ei weithrediad ac oherwydd cadernid y gwasanaeth, bu modd integreiddio i'r tîm wasanaethau eraill cysylltiedig â thai nad oeddent yn perfformio, yn cynnwys rheolaeth y gofrestr tai arbenigol a'r grŵp tai arbenigol. Ar y cyd â chanoli'r gwasanaethau hyn a'r perthnasoedd da sydd wedi'u meithrin â phartneriaid, cafwyd canlyniadau cadarnhaol o ran dod o hyd i eiddo arbenigol wedi'u haddasu sydd wedi cynyddu nifer y cynigion sydd ar gael i gwsmeriaid ag anghenion cymhleth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

**Amherthnasol**

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

**Dim**

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gan Prif Swyddog Cyllid gan nad oes unrhyw effaith ariannol uwchlaw’r ddarpariaeth a glustnodwyd.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dim risgiau dynodedig ar yr amod bod y ffrydiau cyllid fel y nodir yn 6.1 yn parhau ar y lefelau presennol a bod y ddarpariaeth o fewn y rhain yn darparu cynaliadwyedd i gwrdd â phwysau yn y dyfodol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Tai 1985 (A8), Deddf Tai 2004 (A8), Deddf Llywodraeth Leol 2003 (A87), Deddf Tai (Cymru) 2014.

11.2 11.2 Caiff pwerau’r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â’r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.